Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Diogelwch Ymyl Ffordd Teithwyr Bws Ysgol Cynradd

Dylai rhiant bob amser fod mewn safle bws cydnabyddedig 10 munud cyn bod cludiant ysgol fod i gyrraedd i gasglu neu ddychwelyd pob myfyriwr. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bosibl, mewn amgylchiadau eithriadol, na fydd rhiant yn gallu dod i'r safle bws ar amser yn ôl y disgwyl. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos plant ysgol gynradd.

I leihau unrhyw risgiau o ddryswch o'r fath, gofynnir i bob Gweithredwr Cerbyd Cludo Teithwyr sicrhau eu bod yn gofyn am gymorth gan eu gyrwyr ar bob taith i Ysgolion Cynradd i sicrhau fod oedolyn cyfrifol yn cwrdd â phob teithiwr ysgol gynradd cyn iddynt yrru i ffwrdd. Os nad oes rhywun yn dod i gwrdd â phlentyn a'i bod yn ymddangos fod y plentyn ar ei ben ei hun heb oedolyn cyfrifol, ni ddylai'r gyrrwr adael y plentyn ond dylai barhau i fynd â'r plentyn a chysylltu â'r depo. Yna dylai'r Gweithredwr, yn ei dro, gysylltu â'r swyddfa hon a byddwn yn ceisio cysylltu â'r rhiant a'r ysgol mor fuan â phosibl a rhoi cyngor parhaus. Yn yr achos annhebygol nad oes modd datrys y mater yn brydlon, byddwn yn rhoi cyngor pellach ar ba ddewis argyfwng y dylid ei ddilyn. Yna byddwn yn cymryd camau dilynol gan roi cyngor sydd ei angen ar gyfer rhiant / rhieni.

Dylid cymryd gofal ychwanegol os nad yw gyrrwr arferol ar gael am unrhyw reswm. Os gwneir cynlluniau i newid gyrrwr, dylai'r gyrrwr newydd gysgodi'r gyrrwr arferol cyn y newid er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ac oedolion yn gyfarwydd â'i gilydd yn ogystal â'r llwybr. Ffoniwch y swyddfa hon os oes unrhyw amheuon neu ddryswch ynghylch unrhyw fyfyriwr sy'n cael eu cludo, dim ots beth yw eu hoedran.